# Dylunio a gweithredu rhaglen ymarfer ddyddiol ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dylunio a gweithredu rhaglen ymarfer ddyddiol ar gyfer ceffylau.

Dylech allu pennu cyflwr y ceffyl, adnabod ei anghenion ymarfer, cynllunio a chynnal y rhaglen waith a gwerthuso'r canlyniadau.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. asesu cyflwr corfforol a seicolegol presennol y ceffyl a nodi'r anghenion ymarfer
3. dylunio, cynllunio a chytuno ar y rhaglen ymarfer ddyddiol ar gyfer y ceffylau, gyda'r person priodol
4. creu rhaglen ymarfer ddyddiol sydd yn bodloni gofynion y gweithgaredd yn llawn
5. gweithredu rhaglen ymarfer ddyddiol, yn cynnwys gwaith araf a gwaith datblygiad, gan ddefnyddio dulliau a chymhorthion priodol
6. gwerthuso'r effeithiau y mae'r gweithgareddau ymarfer yn eu cael ar y ceffyl
7. cofnodi a hysbysu'r person priodol ynghylch gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad y ceffyl
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. effeithiau corfforol a seicolegol ymarfer a hyfforddiant ar y ceffyl
3. y rhesymau dros ddylunio a gweithredu rhaglenni ymarfer dyddiol ar gyfer ceffylau unigol
4. sut i gyflwyno ceffyl nad yw'n ffit i raglen ymarfer ddyddiol
5. y technegau ffitrwydd ychwanegol e.e. cerddwyr ceffylau a nofio
6. y broses o baratoi ceffyl am gyfnod o orffwys neu dorri i mewn
7. sut i asesu ffitrwydd a chyflwr ceffylau
8. effeithiau natur, oed a phrofiad ar ymddygiad ceffylau
9. sut i adnabod anghenion ymarfer, yn cynnwys graddfeydd amser a chanlyniadau
10. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Cwmpas/Ystod

Cyfrannu at ddylunio a gweithredu rhaglenni ymarfer dyddiol ar gyfer tri cheffyl â lefelau ffitrwydd amrywiol, ar gyfer disgyblaeth benodol

Gweithgaredd ymarfer:

- gwaith araf
- gwaith datblygu

Pennu

- cyflwr corfforol y ceffyl
- cyflwr seicolegol y ceffyl

Dulliau:

- cenglu
- marchogaeth

Dylunio a gweithredu rhaglen ymarfer ddyddiol ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq323 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ymarfer |